**Cyngor Cymuned Dolbenmaen**

**Crynodeb o gofnodion y cyfarfod misol**

**Dyddiad:**

9fed o Ebrill, 2026

**Presennol**

Richard Williams (Cadeirydd), Enid Egginton, Clifford Williams, John Jones (Garndolbenmaen), Raymond Jones, Huw Pritchard (Pentrefelin) Gwilym Evans (Prenteg), John Till, Megan Lloyd Williams (Golan), Edward Evans (Bryncir), Cynghorydd Stephen Churchman, June Jones (Cyngor Gwynedd)

**Ymddiheuriadau**

Gwenno Emlyn Huws (Penmorfa), Richard Parry (Bryncir), Iddon Edwards (Penmorfa)

**Datgan Buddiant**

GE – Eitem 13
MLW – Eitem 13
RJ – Eitem 13
SCH 0 Eitem 13

**Penderfyniadau**

**Cyfrif Cadw -** Penderfyniad i agor cyfrif cadw gyda **Hampshire Trust Bank (HTB).** CW yn cynnig a GE yn eilio. Pawb yn cydweld. Clerc i weithredu.

**Offer fideo-gynadledda** - Penderfynwyd y bydd y neuaddau yn gyfrifol am reoli'r offer fideo-gynadleddau newydd. Bydd angen iddynt sicrhau bod yswiriant priodol ar waith ac y mae'n ofynnol iddynt lunio canllawiau defnydd ar gyfer yr offer. Gofynnir i'r clerc anfon llythyr at bob neuadd i gadarnhau'r penderfyniad hwn.

**Dyddiad a Lleoliad y Cyfarfod Blynyddol a Misol Mai -** Cynhelir y cyfarfod blynyddol a misol Mai yn y Ganolfan ym Mhrenteg. Gall pobl hefyd ymuno'n rhithiol. Bydd y cyfarfod ar 14 Mai am 7yh.

**Cynllunio**

**C25/0853/36/LL –** Llystyn Gwyn, Bryncir, Garndolbenmaen – Cais ôl weithredol i godi adeilad amaethyddol i gadw defaid dros y Gaeaf. **Dim gwrthwynebiad.**

**NP2/16/AD472A –** Parc Gwyliau Aberdunant – Caniatâd Hysbyseb i osod un llechen parhaol ar y llawr. **Oherwydd bod yr arwydd i fyny yn barod, does dim gwrthwynebiad.**